






Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Y Gell Cyngor Technegol

## Crynodeb o'r cyngor

29 Ionawr 2021



## Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

29 Ionawr 2021

### Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

- Mae'r amcangyfrif diweddaraf o'r Rhif atgynhyrchu ( $R_t$ ) ar gyfer Cymru gan y Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) (a gymeradwywyd gan SAGE ar 28 Ionawr) rhwng 0.7 a 0.9. Dyma'r amcangyfrif swyddogol o'r rhif  $R_t$  i Gymru yn seiliedig ar y data sydd ar gael hyd at 25 Ionawr. Mae SAGE yn amcangyfrif bod yr epidemig yn crebachu rhwng -6% a -1% y dydd.
- Yn seiliedig ar nifer yr achosion yn unig, mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod  $R_t$  rhwng 0.71 a 0.74 (fel ag yr oedd ar 22 Ionawr) a bod yr amser haneru yn 17.6 diwrnod (fel ag yr oedd ar 26 Ionawr).
- Ar gyfer y cyfnod o 7 diwrnod a ddaeth i ben ar 28 Ionawr, roedd positifedd profion (cyfnod treigl o 7 diwrnod) yn 11.2%, sydd wedi gostwng ers yr wythnos ddiwethaf, ond sy'n parhau'n uchel ac sy'n uwch na dangosydd sbarduno cyfyngiadau'r lefel goch ym mhob ardal o Gymru. Mae positifedd ar ei uchaf yn ardaloedd Wrecsam (21.8%) a Sir y Fflint (16.5%) yn y Gogledd.
- Mae data o [astudiaeth heintiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol](#) yn dangos bod y gyfradd positifedd yng Nghymru wedi lefelu yn yr wythnos ddiweddaraf, ond mae amcangyfrifon yn dal i awgrymu bod gan 1 o bob 70 o bobl yng Nghymru y feirws yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 23 Ionawr. Yn dilyn cynnydd diweddar, mae achosion positif sy'n gydnaws â'r amrywiolyn newydd VOC 202012/01 wedi lefelu ac mae achosion nad ydynt yn amlwg yn gydnaws â'r amrywiolyn newydd wedi gostwng. Cynyddodd achosion lle'r oedd swm y feirws yn rhy isel i adnabod yr amrywiolyn; gall y rhain gynrychioli achosion lle mae gwerth Ct (trothwy cylch<sup>1</sup>) yn uchel a bod unigolion wedi cael y feirws am gyfnod hirach.
- Mae data astudiaethau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ddefnyddiol gan ei fod yn rhoi syniad o achosion asymptomatig ac nid yw ffactorau eraill fel pobl yn dod i gael prawf neu'r gallu i brofi yn effeithio arno, ond mae'n bwysig pwysleisio'r ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon. Gan mai cymharol ychydig o brofion positif y mae'r arolwg yn eu casglu yn gyffredinol, gall y canlyniadau fod yn sensitif i newidiadau bach yn nifer y profion positif hyn. Gall y data dilyniannu gan lechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer achosion positif fod yn fwy cadarn a chynnwys llai oedi o ran amser, er mai dim ond pobl sydd wedi dewis cael eu profi y mae'n eu cynnwys yn gyffredinol.

<sup>1</sup> Mae gwerth Ct uchel yn dangos crynodiad isel o ddeunydd genetig ac mae gwerth Ct isel yn dangos crynodiad uchel o ddeunydd genetig feirysol

- Ar 28 Ionawr mae VOC 202012/01 (VOC1, a gafodd ei adnabod yng Nghaint) yn parhau i gynyddu ym mhob rhan o Gymru gyda rhwng 45 ac 88% o achosion diweddar yn VOC1 (a nodwyd gan y dangosydd procsi SGTF).
- Ar 1 Chwefror, mae 13 o achosion a gadarnhawyd ac achosion tebygol ar sail genomeg o VOC 202012/01 (yr amrywiolyn sy'n gysylltiedig â De Affrica) yng Nghymru. Nid oes unrhyw achosion o'r amrywiolion sy'n gysylltiedig â Brasil wedi'u nodi eto yng Nghymru.
- Ar 28 Ionawr, mae cyfran y galwadau i GIG 111 a Galw Iechyd Cymru sy'n gysylltiedig â symptomau COVID-19 posibl yn sefydlog, ac mae ymgynghoriadau cyffredinol gan feddygon teulu ar gyfer unrhyw Haint Anadlol Acíwt (ARI) ac achosion COVID-19 tybiedig, a nifer y galwadau ambiwlans a allai fod yn gysylltiedig â COVID-19 wedi gostwng yn yr wythnos ddiweddaraf.
- Fel ag yr oedd ar 29 Ionawr, mae nifer y bobl y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 yn yr ysbyty wedi dangos arwyddion o sefydlogi ac o leihau dros yr wythnosau diwethaf, ond mae'n parhau'n uchel ac yn uwch na'r brig ym mis Ebrill. Mae defnydd cyffredinol o welyau gofal critigol (cleifion COVID-19 a chleifion nad oes ganddynt COVID-19) a defnydd gwelyau ar gyfer cleifion COVID-19 yn unig yn parhau'n uchel ac yn agos at y brig a welwyd ym mis Ebrill. Mae nifer y bobl sy'n gwella o COVID-19 yn uchel, dros 1,100 yn yr wythnos ddiweddaraf.
- Mae nifer wythnosol y marwolaethau a gofnodwyd drwy wylidwriaeth gyflym o farwolaethau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gostwng yn yr wythnos ddiweddaraf, ond mae'n parhau i fod yn uchel ar tua 200 yr wythnos. Mae data ar farwolaethau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n fwy cyflawn ond yn amodol ar oedi, yn dangos bod nifer y marwolaethau cofrestredig sy'n ymwneud â COVID-19 wedi gostwng ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 22 Ionawr o 467 (Wythnos 2) i 447 (Wythnos 3), y trydydd uchaf a gofnodwyd ar unrhyw adeg yn ystod y pandemig. Yn ôl y data sydd ar gael hyd at 15 Ionawr, mae marwolaethau mewn cartrefi gofal yn uchel ac wedi parhau i gynyddu. Yn gyffredinol, mae nifer cyfartalog y marwolaethau COVID-19 rhwng 10 a 15 bob dydd, sy'n uwch na'r cynnydd a welwyd ym mis Tachwedd 2020.
- Fel ag yr oedd ar 1 Chwefror, mae cyfanswm o 439,640 dos cyntaf o frechlyn COVID-19 wedi'u rhoi yng Nghymru. Mae 1,066 o bobl wedi derbyn dau ddos. Bydd nifer gwirioneddol y dosau yn uwch yn sgil cofnodi data'n barhaus.
- Nid yw'r wybodaeth symudedd ac ymlyniad at reolau yn dangos unrhyw newid ers y diweddariad diwethaf. Mae ymlyniad a dealltwriaeth hunan-gofnodedig o'r rheolau yn parhau i fod yn uchel tra bod y data symudedd yn debyg iawn i'r wythnos diwethaf.

- Cyhoeddir papurau SAGE a ystyriwyd gan y Gell Cyngor Technegol [yma](#). Mae papurau diweddar a gyhoeddwyd gan TAG ar gael yma:
  - [Archwilio'r defnydd o wyddoniaeth ymddygiadol i lywio polisi ac ymarfer](#)
  - [Dulliau gwyliadwriaeth i bennu risg, amllder a tharddiad mynediad SARS-CoV-2 i feysydd awyr y DU](#)
  - [Dyfeisiau glanhau aer](#)
  - [COVID Hir](#)

### Y gyfradd twf a'r rhif atgynhyrchu

- Y rhif Atgynhyrchu ( $R_t$ ) yw nifer cyfartalog yr heintiau eilaidd a gynhyrchir gan un unigolyn heintiedig. Mae  $R_t$  yn werth cyfartalog dros amser, lleoliadau daearyddol a chymunedau. Dylid ystyried hyn wrth ddehongli amcangyfrif  $R$  ar gyfer y DU o ystyried y gwahaniaethau mewn polisïau ar draws y pedair gwlad.
- Mae'r amcangyfrif diweddaraf o'r rhif atgynhyrchu ( $R_t$ ) ar gyfer Cymru gan SAGE (a gymeradwywyd gan SAGE ar 28 Ionawr) rhwng 0.7 ac 0.9 (cyfwng hyder o 90%). Dangosir yr amcangyfrif o  $R_t$  fel ystod heb amcangyfrif canolog ac mae'n ddangosydd gyda pheth oedi, yn seiliedig ar y data diweddaraf sydd ar gael hyd at 25 Ionawr.
- Mae SAGE yn amcangyfrif bod y gyfradd twf ddyddiol bresennol (a gymeradwywyd gan SAGE ar 28 Ionawr) rhwng -0.06 a -0.01 (cyfwng hyder o 90%) yng Nghymru, sy'n dangos y gallai heintiadau fod yn crebachu rhwng -6% a -1% y dydd.
- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn amcangyfrif  $R_t$  ar gyfer Cymru gan ddefnyddio data ar nifer yr achosion positif. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r amcangyfrifon hyn oherwydd efallai yr effeithir arnynt gan newidiadau mewn patrymau profi. Fel ag yr oedd ar 22 Ionawr, amcangyfrifir bod  $R_t$  yng Nghymru rhwng 0.71 a 0.74 (cyfwng hyder o 95%). Gweler y Ffigur isod.
- Dylid bod yn ofalus o hyd wrth ddehongli amcangyfrifon  $R_t$  a chyfraddau twf ar gyfer y DU oherwydd yr oedi anorfod sydd ynghlwm wrthynt, ac oherwydd bod y ffigurau hyn yn cuddio amrywiad yn nifer yr heintiadau a'r modd y mae'r cyfraddau trosglwyddo yn newid yn rhai rhannau o'r wlad.
- Dangosir yr amcangyfrifon o  $R_t$  fel amrediad heb amcangyfrif canolog. Mae cyfradd twf sy'n is ond sy'n dal yn positif, neu rif  $R_t$  uwch nag 1, yn dangos bod yr epidemig yn tyfu fwyfwy.

### Amser haneru

- Fel yr oedd ar 26 Ionawr, amcangyfrifodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod yr amser haneru (yr amser y mae'n ei gymryd i nifer yr achosion haneru) yn 17.6 diwrnod

(cyfwng hyder o 95%) o 10.4 i 57.9 gan ddefnyddio data o 09/01/2021 i 22/01/2021 (gweler y Ffigur isod).

- Mae amser haneru (a chyfraddau twf  $R_t$ ), yn rhoi syniad o gyfradd y newid ac felly dylid ei drin yn ofalus am y rhesymau a amlinellir uchod.

## Diweddariad rhyngwladol

- Yn gyffredinol, mae'r sefyllfa yn Ewrop yn dangos lleihad mewn tueddiadau heintio gan fod cyfyngiadau symud parhaus yn cyfyngu ar y siawns o drosglwyddo rhwng pobl. Fodd bynnag, mae dau eithriad arwyddocaol fel y disgrifir isod.

### Sbaen a Phortiwgal


- Mae'r cynnydd cyflym diweddar mewn achosion ym **Mhortiwgal** wedi parhau yr wythnos hon gyda'r nifer uchaf erioed o achosion wedi'u hadrodd. Ym Mhortiwgal, mae'r don ddiweddaraf hon yn uwch na'r holl donnau blaenorol, er gwaethaf ansicrwydd y don gyntaf ym mis Mawrth ac Ebrill 2020. Gan fod cyfraddau marwolaeth yn uwch o bell ffordd na thonnau blaenorol, mae'n ymddangos bod y sefyllfa bresennol cyn waethed neu'n waeth nag unrhyw don flaenorol. Adroddir mai'r amrywiolyn newydd sy'n achosi'r cynnydd cyflym hwn.
- Yn **Sbaen**, mae'r cynnydd diweddar wedi arafu ac mae arwyddion y gallai'r sefyllfa fod yn dechrau gwella. Mewn ymgais i fynd i'r afael â'r cynnydd diweddar hwn, bydd Sbaen yn treialu wythnos 4 diwrnod (h.y. 32 awr dros 4 diwrnod yn hytrach nag ychydig mwy o oriau dros 5 diwrnod) er mwyn lleihau'r potensial ar gyfer traws-heintio mewn mannau gwaith. Adroddir y bydd gweithwyr yn parhau i gael eu talu am wythnos 5 diwrnod gyda chostau'n cael eu talu gan y llywodraeth.

### Israel

- Mae'r gyfradd heintio yn dechrau gostwng o uchafbwynt tua wythnos yn ôl er ei bod yn dal i fod yn un o'r uchaf yn y byd am bob pen o'r boblogaeth. Mae'r gostyngiad hwn mewn achosion yn ganlyniad i gyfnod clo o 4 wythnos a fydd yn parhau am o leiaf pythefnos arall. Dywed Israel fod y cynnydd cyflym a brofodd drwy gydol mis Ionawr wedi bod o ganlyniad i'r amrywiolion newydd ac mae hyn wedi arwain at y nifer uchaf erioed o farwolaethau yn y dyddiau diwethaf. Yn ôl y disgwyl, mae'r gyfradd marwolaethau 1 i 2 wythnos ar ôl y gyfradd heintio.
- Hyd yma, mae tua 21% o boblogaeth gyfan Israel wedi cael ail ddos y brechlyn ac mae gan y wlad un o'r lefelau brechu uchaf ar gyfer y brechiad cyntaf o unrhyw wlad. Fodd bynnag, ni ellir ystyried bod cyflwyno'r brechlyn yn cyfrannu at y


gostyngiad diweddar iawn mewn achosion (credir bod hyn oherwydd y cyfyngiadau symud) felly mae gan awdurdodau obeithion mawr y bydd y gyfradd frechu uchel yn dechrau cael effaith fuddiol dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

- Mae'r map isod yn dangos y gyfradd hysbysu gyfartalog am bob 100,000 o bobl yn yr UE mewn cyfnod o 14 diwrnod. Nid yw'r DU wedi'i chynnwys oherwydd Brexit.
- Mae data ynglŷn â'r darlun ledled Ewrop, gan gynnwys cafeatau ynghylch oedi o ran data ac amrywiaeth mewn polisïau profi, ar gael [yma](#).



## Nifer yr achosion


- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer yr achosion o COVID-19 a gadarnhawyd bob dydd (swm cyfnod treigl o 7 diwrnod, fesul 100,000 o'r boblogaeth). Mae achosion yn parhau i ddangos tuedd ar i lawr.



**Ffynhonnell:** Data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel ag yr oeddent ar 26 Ionawr

### Proffil oedran

- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl wythnos casglu sampl a grŵp oedran. Mae'r coch tywyllach yn dangos nifer gynyddol o achosion wythnosol.



**Ffynhonnell:** Dangosfwrdd Llywodraeth Cymru, data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel ag yr oeddent ar 20 Ionawr.


- Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ystod wythnos 03, gostyngodd y digwyddedd achosion ar draws pob grŵp oedran. Roedd nifer yr achosion ar eu huchaf ymhlith y rhai 85+ oed.

### Canlyniadau Astudiaeth Heintiau Covid-19 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

- Mae'r data hyn yn ddefnyddiol gan mai'r rhain yw'r unig amcangyfrifon o heintio sy'n cynnwys achosion asymptomatig yn ogystal ag achosion symptomatig, ac

nid yw ffactorau eraill fel capasiti profi na nifer y bobl sy'n dod ymlaen i gael eu profi yn effeithio arnynt. Mae'r canlyniadau ar gyfer cartrefi preifat yn unig – y 'boblogaeth gymunedol' – ac nid ydynt yn berthnasol i bobl mewn ysbytai, cartrefi gofal neu leoliadau sefydliadol eraill.

- Fodd bynnag, mae mwy o oedi o ran data o'r arolwg heintiau nag o ffynonellau eraill fel [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#). Mae'n bwysig pwysleisio'r ansicrwydd ynghylch y ffigurau hyn. Gan mai cymharol ychydig o brofion positif y mae'r arolwg yn eu casglu yn gyffredinol, gall y canlyniadau fod yn sensitif i newidiadau bach yn nifer y profion positif hyn. Gall y data dilyniannu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer achosion positif fod yn fwy cadarn ac yn llai agored i oedi, er mai dim ond pobl sydd wedi dewis cael eu profi y mae'n ei gynnwys yn gyffredinol.
- Mae data arolwg heintiadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf (17 i 23 Ionawr 2021) yn dangos bod y gyfradd positifedd yng Nghymru wedi sefydlogi yn yr wythnos ddiweddaraf, ar ôl disgyn o'r brig a welwyd ychydig cyn y Nadolig.
- Ar gyfer yr wythnos o 17 i 23 Ionawr 2021, roedd gan gyfartaledd o 1.43% o'r boblogaeth gymunedol COVID-19 (cyfwng credadwy o 95%: 1.19% i 1.70%). Mae hyn gyfystyr ag oddeutu 1 person ym mhob 70 (cyfwng credadwy o 95%: 1 o bob 85 i 1 o bob 60), neu 43,600 o bobl yn ystod y cyfnod hwn (cyfwng credadwy o 95%: 36,100 i 51,600).
- Mae'r Ffigur isod yn dangos yr amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer cyfraddau positifedd (%) ers 13 Rhagfyr 2020 ar draws pedair gwlad y DU.
- Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon pwynt unigol ar gyfer y gwledydd. Ceir mwy o ansicrwydd mewn perthynas â'r amcangyfrifon ar gyfer y dyddiau olaf yn y gyfres, a ddangosir fel llinellau toredig yn y siart isod.

**Positivity rates (%) across UK countries since 13 December 2020**


**Ffynhonnell:** Arolwg Heintiau Coronafeirws (COVID-19), y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 27/01/21

- Yn dilyn cynnydd diweddar, mae achosion positif sy'n gydnaws â'r amrywiolyn newydd VOC 202012/01 wedi lefelu yn yr wythnos ddiweddaraf. Gostyngodd achosion nad ydynt yn amlwg yn gydnaws â'r amrywiolyn newydd. Mae achosion lle'r oedd swm y feirws yn rhy isel i'r amrywiolyn gael ei adnabod wedi cynyddu; gall y rhain gynrychioli achosion lle mae gwerth Ct (trothwy cylch<sup>2</sup>) yn uchel a bod unigolion wedi cael y feirws am gyfnod hwy. Gweler y siart isod.

<sup>2</sup> Mae gwerth Ct uchel yn dangos crynodiad isel o ddeunydd genetig ac mae gwerth Ct isel yn dangos crynodiad uchel o ddeunydd genetig feirysol

**Percentage of people testing positive for COVID-19 in Wales**

Modelled daily estimates



The area to the right of the where the central estimate ends has a lower level of certainty due to lab results still being processed for this period

\*New variant compatible = gene pattern OR + N

\*\*Not compatible with new variant = gene pattern S + OR + N

\*\*\*Not identifiable = all other gene patterns

Data from 13 December 2020 to 23 January 2021

**Ffynhonnell:** Arolwg Heintiau Coronafeirws, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 27/01/21

- Cyhoeddir canlyniadau [yma ar gyfer Cymru](#) ac [yma gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#).

**Brechu yng Nghymru**

- Fel ag yr oedd ar 1 Chwefror, mae cyfanswm o 439,640 dos cyntaf o frechlyn COVID-19 wedi'u rhoi yng Nghymru. Mae 1,066 o bobl wedi derbyn dau ddos.
- Bydd nifer gwirioneddol y dosau yn uwch oherwydd cofnodi data'n barhaus.
- Mae data ar frechiadau ar gael [gan lechyd Cyhoeddus Cymru](#).


**Marwolaethau**

- Mae'r Ffigur isod yn dangos y swm treigl 7 diwrnod o farwolaethau COVID-19 a gofnodwyd drwy drefniadau gwylidwriaeth cyflym o farwolaethau gan lechyd Cyhoeddus Cymru ar 26 Ionawr 2021. Mae nifer wythnosol y marwolaethau a gofnodwyd wedi gostwng yn yr wythnos ddiweddaraf. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r tueddiadau diweddaraf.




**Ffynhonnell:** Dangosfwrdd Llywodraeth Cymru, data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel ag yr oeddent ar 26 Ionawr.

- Mae'n bwysig nodi bod y data hyn yn cynnwys adroddiadau am farwolaeth cleifion mewn ysbytai neu gartrefi gofal yng Nghymru lle mae COVID-19 wedi'i gadarnhau drwy brawf labordy positif a bod y clinigwr yn amau bod COVID-19 yn ffactor a achosodd farwolaeth. Nid yw'n cynnwys cleifion a allai fod wedi marw o COVID-19 ond na chadarnhawyd hynny drwy brofion labordy, y rhai a fu farw mewn lleoliadau eraill, neu breswylwyr o Gymru a fu farw y tu allan i Gymru. Bydd gwir nifer y marwolaethau yn uwch.
- Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn adrodd ar farwolaethau o ganlyniad i achosion a gadarnhawyd ac achosion tybiedig o COVID-19 gan ddefnyddio data sydd ar gael ar ôl cwblhau'r broses cofrestru marwolaethau ac er eu bod yn destun oedi, maent yn fwy cyflawn.
- Mae'r Ffigur isod yn dangos data y Swyddfa Ystadegau Gwladol o nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19 a gofrestrwyd fesul wythnos yng Nghymru a nifer y marwolaethau o bob achos a gofrestrwyd fesul wythnos rhwng 28 Rhagfyr 2019 a 22 Ionawr 2021.



Data ffynhonnell: [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

- Yng Nghymru, cynyddodd nifer y marwolaethau cofrestredig sy'n gysylltiedig â COVID-19 o 467 (Wythnos 2) i 447 (Wythnos 3), yr uchaf a gofnodwyd ar unrhyw adeg yn ystod y pandemig.
- Fel yr hysbyswyd Arolygiaeth Gofal Cymru, rhwng 1 Mawrth 2020 a 15 Ionawr 2021, mae marwolaethau preswylwyr o ganlyniad i achosion a gadarnhawyd ac achosion tybiedig o COVID-19 yn gymaint â 21% o'r holl farwolaethau a gofnodwyd.
- Ar ddechrau mis Tachwedd 2020 bu cynnydd yn nifer y marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 a hysbyswyd i Arolygiaeth Gofal Cymru. Yn dilyn gostyngiad ym mis Rhagfyr 2020, bu cynnydd pellach ym mis Ionawr 2021. Yn gyffredinol, mae nifer cyfartalog marwolaethau COVID-19 rhwng 10 a 15 bob dydd, sy'n uwch na'r cynnydd a welwyd ym mis Tachwedd 2020.
- Mae'r Siart isod yn dangos hysbysiadau o farwolaethau preswylwyr cartrefi gofal i oedolion o ganlyniad i achosion a gadarnhawyd ac achosion tybiedig o COVID-19 yn ôl lleoliad y farwolaeth a diwrnod yr hysbysiad (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, rhwng 7 Mawrth 2020 a 15 Ionawr 2021).




Source: Notifications of Service User Deaths received by Care Inspectorate Wales

- Mae rhagor o wybodaeth am farwolaethau mewn cartrefi gofal ar gael [yma](#).

### Glynu wrth y mesurau presennol a dealltwriaeth ohonynt


- Mae data newydd gan lechyd Cyhoeddus Cymru yr wythnos hon. Mae canlyniadau IPSOS MORI yr un fath â'r wythnos diwethaf, a disgwylir data newydd yr wythnos nesaf.
- Mae'r [data IPSOS MORI](#) diweddaraf ar gyfer y cyfnod 15-19 Ionawr ar gyfer Cymru yn dangos cynnydd o'r arolwg diwethaf a gynhaliwyd cyn cyflwyno lefel rhybudd 4 (4-7 Rhagfyr). Roedd nifer y bobl a roddodd wybod eu bod yn gwisgo gorchudd wyneb ar ei uchaf ers dechrau casglu data, ac roedd y rhai a roddodd wybod eu bod yn gwneud teithiau hanfodol yn unig ar ei uchaf ers mis May ac yn uwch na'r arolwg yn ystod y cyfnod atal byr. Dylid nodi y bydd ymlyniad sydd wedi'i adrodd gan yr unigolyn wedi'i effeithio gan ddealltwriaeth unigolion o'r rheolau a'r amgylchiadau sy'n berthnasol iddyn nhw.
- Mae'r ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg a gynhaliwyd mewn sawl gwlad ar blatfform Global Advisor. Mae pob un o'r camau wedi cynnwys oddeutu 500 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru rhwng 16 a 74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/-4.8 pwynt canran.




- Mae canlyniadau diweddaraf yr [Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ynghylch Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws](#) ar gyfer y cyfnod 4 Ionawr - 10 Ionawr yn dangos bod 53% o bobl yn dweud eu bod yn deall y cyfyngiadau presennol yn eu hardal leol yn 'dda iawn'. Dywedodd 40% arall eu bod yn deall y cyfyngiadau yn 'eithaf da'. Mae'r canlyniadau hyn yn debyg i bythefnos yn ôl a oedd yn uwch na'r rhai yng nghanol mis Rhagfyr cyn i lefel rhybudd 4 ddechrau. Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod 55% o bobl wedi dweud eu bod yn dilyn y cyfyngiadau coronafeirws yn 'gyfan gwbl' a bod 37% arall wedi dweud eu bod yn cydymffurfio â'r mwyafrif, sydd unwaith eto yn uwch nag yng nghanol mis Rhagfyr. Dywedodd 19% fod pobl y tu allan i'w haelwyd/aelwyd estynedig a ganiateir wedi dod i mewn i'w tŷ, a dywedodd 13% eu bod wedi mynd i dai pobl eraill – mae'r ddwy ganran hon yn is nag yng nghanol mis Rhagfyr.

## Symudedd

- Nid yw data symudedd ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf (y bedwaredd wythnos ym mis Ionawr yn bennaf) yn dangos llawer o newid o'i gymharu â'r wythnos flaenorol. Mae patrymau symudedd yn parhau i fod yn unol â'r cyfnod atal byr – gyda lefelau'n bennaf rhwng wythnos gyntaf ac ail wythnos y cyfnod atal byr.



- Mae symudedd [defnyddwyr Facebook](#) yng Nghymru yn dangos bod symudiadau 29% yn is na'r llinell sylfaen ar gyfer yr wythnos hyd at 29 Ionawr. Mae hyn yn debyg i'r wythnos flaenorol (30%). 35% oedd canran y defnyddwyr a oedd yn aros lle yr oeddent (yn agos at gartref), yr un fath â'r wythnos flaenorol. Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol ar gyfer yr un diwrnod o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 4 wythnos o 2 Chwefror - 29 Chwefror 2020.
- Mae [data Apple](#) ar gyfer yr wythnos hyd at 30 Ionawr yn dangos bod ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi cynyddu o gymharu â'r wythnos flaenorol ar 70% o'r llinell sylfaen (i fyny o 71%). Roedd ceisiadau am gyfarwyddiadau cerdded a cheisiadau am gyfarwyddiadau trafndiaeth gyhoeddus hefyd ychydig yn is na'r wythnos flaenorol o'i gymharu â'r llinell sylfaen. Y llinell sylfaen yw 13 Ionawr 2020.
- Mae [data symudedd Google](#) hyd at wythnos 26 Ionawr ar gyfer preswyl (h.y. pobl sy'n treulio amser gartref) yn debyg i'r wythnos flaenorol ar 16% yn uwch na'r llinell sylfaen. Roedd y gweithleoedd wedi gostwng ychydig (ar 42% yn is na'r llinell sylfaen). Mae manwerthu a hamdden yr un fath â'r wythnos diwethaf (60% yn is na'r llinell sylfaen) tra bod archfarchnadoedd a fferyllfeydd yn dangos cynnydd bach (23% yn is na'r llinell sylfaen, i fyny o 24%). Nid yw trafndiaeth gyhoeddus a pharciau yn dangos unrhyw newid o'i gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Mae'r ffigur isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos 3 Ionawr - 6 Chwefror 2020. Nid yw'r data ar gyfer sawl categori ar gael ar gyfer 17 Awst - 10 Medi oherwydd nad yw'r data'n bodloni trothwyon ansawdd.



- Mae data ffôn symudol dienw, cyfanredol gan O2 ar gyfer yr wythnos hyd at 22 Ionawr yn dangos lefel debyg o deithiau o'i gymharu â'r wythnos flaenorol. Cododd teithiau sy'n dechrau yng Nghymru o 1 pwynt canran i 51% o'r llinell sylfaen. Y llinell sylfaen ar gyfer data O2 yw'r un diwrnod o'r wythnos yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth.

## Ymchwil

- Mae 10,767 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd y cyhoedd brys COVID-19 ar hyn o bryd, sy'n gynydd o 234 ers yr adroddiad diwethaf.

## Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Fel ag yr oedd ar 28 Ionawr

- Mae cyfran y galwadau i GIG 111 a Galw Iechyd Cymru sy'n gysylltiedig â symptomau COVID-19 posibl yn sefydlog o gymharu â'r wythnos flaenorol, mae ymgynghoriadau cyffredinol meddygon teulu ar gyfer unrhyw Haint Anadlol Acíwt (ARI) a COVID tybiedig a nifer y galwadau ambiwlans a allai fod yn gysylltiedig â COVID-19 wedi gostwng yn yr wythnos ddiweddaraf.
- Mae nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd gan labordy wedi parhau i ostwng yn yr wythnos ddiweddaraf. Roedd positifedd samplau ar gyfer episodau profi yn 14% yn wythnos 03.

- Yn ystod wythnos 03, gostyngodd y digwyddedd achosion ar draws pob grŵp oedran, ac roedd nifer yr achosion ar eu huchaf ymhlith y rhai 85+ oed.
- Mae nifer yr achosion a gadarnhawyd a phositfodd episodau profi wedi gostwng ym mhob ardal yng Nghymru yn ystod yr wythnosau diwethaf.
- Ar lefel genedlaethol, cadarnhawyd bod derbyniadau achosion a gadarnhawyd i ysbytai ac achosion a gadarnhawyd sy’n gleifion mewnol yn yr ysbyty wedi gostwng o gymharu â’r wythnos flaenorol. Yn ystod yr wythnos ddiwethaf, gostyngodd derbyniadau i wardiau gofal critigol o gymharu â’r wythnosau blaenorol.
- Mae data gwyliadwriaeth diweddar yn awgrymu bod heintiadau COVID-19 yng Nghymru yn gostwng yn y rhan fwyaf o ardaloedd Cymru. Ceir achosion dros ardal ddaearyddol eang o hyd, ond mae’r tueddiadau o ran digwyddedd achosion a gadarnhawyd yn gostwng yn y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol yn ystod yr wythnos ddiweddaraf.
- Mae nifer y digwyddiadau yr adroddwyd arnynt yn ystod yr wythnosau diwethaf wedi gostwng ond maent yn parhau i fod yn uchel mewn cartrefi gofal preswyl.
- Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ysgol yn cael eu haddysgu ar-lein ar hyn o bryd, gyda rhywfaint o ddysgu wyneb yn wyneb ar gyfer plant sy’n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol. Mae gwybodaeth gwyliadwriaeth ysgolion i’w chael ar [ddangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru](#).
- Rhwng 7 Rhagfyr 2020 a 24 Ionawr 2021, roedd 278,246 o frechiadau COVID-19 wedi’u rhoi yng Nghymru (data ar 27 Ionawr).
- Mae marwolaethau o bob achos yn uwch o’u cymharu â’r cyfartaledd 5 mlynedd, ond gostyngodd yn yr wythnos ddiweddaraf.
- Gostyngodd marwolaethau mewn ysbytai o ganlyniad i achosion a gadarnhawyd, ac a adroddwyd drwy wyliadwriaeth marwolaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod yr wythnos ddiweddaraf, ond maent yn parhau’n uchel.
- Nid yw’r Ffliw a’r Feirws Syncytiol Anadlol (RSV) yn cylchredeg yng Nghymru ar hyn o bryd.


## **Dadansoddiad awdurdodau lleol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru**

(Cyfnod sy’n cwmpasu 17 i 23 Ionawr 2021)

- Mae pob awdurdod lleol yn y trothwy uchaf ar gyfer digwyddedd 7 diwrnod ( $> 50$  fesul 100,000) a phositifedd profion ( $>5\%$ ).
- Byddwch yn ofalus wrth ddehongli tueddiadau ar gyfer y cyfnod diweddaraf gan nad yw data profi bob amser yn gyflawn a bydd y ffigurau'n cael eu diwygio yn y dyfodol os bydd data yn cael eu cyflwyno'n hwyr.
- Mae gwybodaeth bellach ar gael ar wefan [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#).

### Defnydd o welyau mewn ysbytai


- Mae'r Ffigur isod yn dangos y defnydd o welyau ysbytai sy'n cael eu defnyddio gan gleifion y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19, yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, fel ag yr oedd ar 29 Ionawr 2021).




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y gwelyau mewn unedau gofal dwys sy'n cael eu defnyddio gan gleifion y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, fel ag yr oedd ar 29 Ionawr 2021).




- Ar 29 Ionawr, mae nifer y bobl y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 yn yr ysbyty wedi sefydlogi a gostwng dros yr wythnosau diwethaf, ond mae'n parhau'n uchel ac yn uwch na'r brig a welwyd ym mis Ebrill. Yn gyffredinol, mae defnydd gwelyau'r unedau gofal dwys (cleifion COVID-19 a chleifion nad oes ganddynt COVID-19) hefyd yn uchel ac yn agos at frig mis Ebrill. Mae nifer y bobl sy'n gwella o COVID-19 yn uchel – dros 1,100 yn yr wythnos ddiweddaraf.
- Wrth ystyried data ar gapasiti (242 o welyau) a defnydd gwelyau (196 o welyau) a adroddwyd inni gan fyrdau iechyd lleol, mae tua 81% o welyau unedau gofal dwys Lefel 3 ledled Cymru yn cael eu defnyddio gan gleifion sydd â COVID a chleifion nad oes ganddynt COVID (fel ag yr oedd ar 29 Ionawr). Fodd bynnag, fel arfer ceir oddeutu 152 o welyau gofal critigol (sy'n gyfwerth ag unedau gofal dwys Lefel 3) ac felly mae ysbytai'n creu capasiti gwelyau gofal critigol ychwanegol yn sgil y galw cynyddol. Felly, mae'r defnydd o welyau unedau gofal critigol yng Nghymru yn 100% neu ragor o'u capasiti gofal critigol arferol ac efallai na fydd cymhareb staff nyrsio 1:1 ar gyfer pob claf critigol yn bosibl i lawer o gleifion, hyd yn oed gyda staff nad ydynt yn gweithio fel arfer ym maes gofal critigol yn helpu i ofalu am gleifion.
- Mae'r Ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer y bobl sydd wedi cael prawf COVID-19 positif ac sydd mewn unedau gofal dwys mewn ysbytai ar draws y gwahanol fyrdau iechyd yng Nghymru. Data fel yr oeddent ar 25 Ionawr 2021.




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty o ganlyniad i achosion a gadarnhawyd ac achosion tybiedig o COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, ac mae'r llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny. Data fel ar 29 Ionawr 2021.



- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a ryddhawyd o'r ysbyty yn dilyn achosion a gadarnhawyd ac achosion tybiedig o COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, ac mae'r llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny. Data fel ar 29 Ionawr 2021.



- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y cleifion a dderbyniwyd i'r unedau gofal dwys o ganlyniad i achosion a gadarnhawyd ac achosion tybiedig o COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, ac mae'r llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny. Data fel ar 29 Ionawr 2021.



### Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)

- Os yw hynny’n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol elfennau’r cyngor a roddir.

